

**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
4 Hydref 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Wynn Roberts, Math Williams, Peter Garlick, Geraint Strello, Gwyneth Thomas

**Cadeirio:** Erddyn Davies

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

**1. YMDDIHEURIADAU**

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Ifor Dylan Williams, Mirain Llwyd Owen

**2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Medi 2018.

Cynnig: Math Williams

Eilio: Geraint Strello

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**4.1 Clybiau Ieuenctid Gwynedd**

Mynychodd y Cynghorwyr Mathew Williams, Mirain Llwyd Owen a Dafydd Iwan gyfarfod gyda cynrychiolwyr Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddarparu Clwb Ieuenctid ym Bontnewydd, un noson yr wythnos hyd at ddwy awr gyda thri aelod o staff, hyd at fis Mawrth 2018. Cost hyn fydd £1,580 a chostau rhentu'r Ganolfan. Rhydd hyn gyfle i'r Cyngor Cymuned asesu ei lwyddiant a phenderfynu i barhau â'r trefniant ai peidio, ond bydd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned ysgwyddo'r gost o fis Mawrth ymlaen.

Bydd angen gwneud penderfyniad ar y mater yma erbyn dechrau Chwefror 2019. Gall Cyngor Cymuned y Bontnewydd roi gwybod i Gyngor Gwynedd pa fath o weithgareddau hoffent i'r ieuenctid eu gwneud.

**4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

Rhoddodd y Cynghorydd Math Williams grynodedeb o sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Rhagwelir y bydd incwm tros wariant tua £2,650 yn brin y flwyddyn nesaf. Mae'r incwm tros wariant

eleni £700 yn brin, ond bydd y sefyllfa'n gwaethygu oherwydd colled incwm cymharol sylweddol y Clwb Ieuencid.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i godi cost rhentu'r Ganolfan, gan fod y symiau a godir ar hyn o bryd yn gymharol isel, a byddai codi'r gost ychydig bach yn rhoi'r Ganolfan ar seiliau ariannol llawer cadarnach.

#### **4.3 Cerrig yn Afon Gwyrfa**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu decrhau'r gwaith o glirio'r cerrig cyn 25 Hydref. Gan fod yr ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yna mae'n rhaid gwneud y gwaith cyn 25 Hydref, neu aros tan y flwyddyn nesaf.

Ysgrifennodd y Clerc at Gyfoeth Naturiol Cymru i fynegi siom nad oedd cynrychiolaeth o Gyfoeth Natruiol Cymru wedi mynychu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi gyda Cyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill, er mwyn trafod yn gyffredinol problem llifogydd ym Montnewydd.

Cynhelir cyfarfod arall gyda Cyngor Gwynedd ddechrau Rhagfyr, a gofynnir i Gyfoeth Naturiol Cymru fynychu'r cyfarfod hwnnw.

#### **4.4 Carafan Y Foryd**

Mae'r garafan a adawyd yn Y Foryd am rai wythnosau bellach wedi ei symud.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Medi 2018**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

#### **5.2 Costau Postio Clerc** £1.12

#### **5.3 Cadarnhau Ffurflen Flynyddol 2018**

Cadarnhawyd Ffurflen Flynyddol 2017/18 ac fe'i danfonir yn awr at yr ymchwilydd allanol

#### **5.4 Balans yn y Banc 1 Hydref 2018** £17,084.54

### **6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

## **7. GOHEBIAETH**

- Cyngor Gwynedd – Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?
- Cist Cymunedol Gwynedd
- Ffordd Tan y Graig, Llanfaglan
- Llythyr gan Gylch Meithrin Bontnewydd yn diolch am eu rhodd ariannol

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

## **8. MATERION ERAILL**

### **8.1 Cyfyngiadau Parcio Bontnewydd**

Bydd Cyngor Gwynedd yn gosod llinellau melyn dwbl ar y ddwy gornel ar ddechrau'r lôn gul sy'n arwain at Y Ganolfan, ger hysbysfwrdd y pentref.

### **8.2 Gwresogydd i'r Ganolfan**

Mae angen prynu gwresogydd ychwanegol i neuadd y Ganolfan yn fuan. Cytunwyd mewn egwyddor i hyn, a gofynnwyd i Bwyllgor y Ganolfan drefnu a gofyn am brisiau.

Mae AER a osododd wresogydd rai misoedd yn ôl wedi dweud y byddai gosod gwresogydd arall tua'r un pris, sef tua £3,000, ond gall fod ychydig yn rhatach oherwydd bod y gwaith cychwynnol wedi ei wneud wrth osod y gwresogydd arall.

### **8.3 Goryrru yn Llanfaglan**

Mae angen cytuno ar union ddarpariaeth a lleoliad yr arwyddion y cytunodd Cyngor Gwynedd eu gosod ar Lôn Pant. Awgrymwyd gofyn am fanylion pellach ac yna mynegi barn.

Er y cytunwyd fod rhai modurwyr yn goryrru drwy Lanfaglan, y farn gyffredinol oedd fod popeth oedd yn rhesymol bosibl wedi ei wneud a'i drafod parthed y mater yma. Doedd yna fawr o gefnogaeth gan y rhelyw o aelodau'r Cyngor Cymuned am y syniad o gael eu hyfforddi i ddefnyddio gwn mesur cyflymder ac i blismona goryrrwyr eu hunain.

Gobeithir y bydd ymweliadau gan y fan Gan Bwyll yn gwella pethau ymhellach.

Bu i'r Cynghorydd Ifor Dylan Williams ofyn am arwyddion gwell yn nodi cyffordd yn Lôn Morfa – Cae'r Efail, ac arwydd yn nodi mynedfeydd cuddiedig rhwng Fron Oleu a Parciau, yn hytrach na'r arwydd presennol yn nodi cyffordd, ac fe gytunwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am y rhain.

## **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**1 Tachwedd** 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd



